Disgrifiad o'r Rôl

# Heneb – Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru

# Disgrifiad o Rôl Ymddiriedolwr –

# Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 21 Mai 2026**

**Gwybodaeth am Heneb**

Heneb – Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru yw'r elusen genedlaethol a ffurfiwyd yn 2024 drwy uno'r pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw gwarchod, deall a hyrwyddo amgylchedd hanesyddol Cymru, gan ddarparu arbenigedd archaeolegol, budd i'r cyhoedd, a gwerth diwylliannol ledled y wlad.

Rydym yn cael ein llywodraethu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sydd, gyda'i gilydd, yn darparu cyfeiriad strategol, goruchwyliaeth a stiwardiaeth dros yr elusen i gefnogi ein cynllun pum mlynedd a'n gweledigaeth hirdymor.

Rydym nawr yn gwahodd ceisiadau ar gyfer **dau Ymddiriedolwr newydd** i ymuno â'n Bwrdd.

**Pwrpas y Rôl**

Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod Heneb yn cael ei llywodraethu'n dda, yn gynaliadwy yn ariannol, yn cydymffurfio â'r gyfraith, ac yn gallu darparu gwasanaethau archaeolegol a threftadaeth o ansawdd uchel i bobl a lleoedd Cymru. Mae ymddiriedolwyr hefyd yn llysgenhadon i'r Ymddiriedolaeth, ac yn cynnal ei gwerthoedd, ei hannibyniaeth a'i henw da.

**Y Prif Gyfrifoldebau**

Bydd ymddiriedolwyr yn:

**Llywodraethiant a Strategaeth**

Heneb

- Cyfrannu at ddatblygu, craffu a chefnogi’r gwaith o weithredu amcanion strategol Heneb.
- Sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â’i dogfennau llywodraethu, cyfraith elusennau, a gofynion rheoleiddiol.
- Rhoi her adeiladol a chefnogaeth i'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain.

**Stiwardiaeth Ariannol**

- Diogelu asedau’r Ymddiriedolaeth a sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n effeithiol.
- Cymeradwyo cyllidebau blynyddol, monitro perfformiad, a goruchwylio’r gwaith rheoli risg.

**Eiriolaeth a Chynrychiolaeth**

- Bod yn llysgennad ar ran Heneb, gan hyrwyddo ei gwaith yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Cefnogi’r gwaith o feithrin partneriaethau â chymunedau, rhanddeiliaid, cyllidwyr a’r sector treftadaeth ac archaeolegol ehangach.

**Diwylliant a Gwerthoedd**

- Hyrwyddo cynhwysiant, cynaliadwyedd a llywodraethiant da.
- Cefnogi ymrwymiadau Heneb i’r Gymraeg, amrywiaeth ac ymgysylltu â’r gymuned.

**Sgiliau a Phrofiad y Gofynnir Amdanynt**

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Ar hyn o bryd, rydym yn **chwilio’n benodol am ymgeiswyr sydd â phrofiad mewn un neu ragor o’r meysydd canlynol**:

**Sgiliau Blaenoriaeth**

- **Cyfathrebu, Digidol a Datblygu Brand**
  (gan gynnwys ymgysylltu â’r cyhoedd, trawsnewid digidol, storïaeth, marchnata)

- **Diogelu Data a Seiberddiogelwch**
  (Cydymffurfio â GDPR, llywodraethiant gwybodaeth, risg ddigidol)

- **Rheoli Gwirfoddolwyr**
  (gan gynnwys cyfranogiad mewn treftadaeth gymunedol a datblygu gwirfoddolwyr)

- **Archaeoleg Fasnachol ac Iechyd a Diogelwch**
  (arferion diwydiannol, gweithrediadau masnachol, rheoli risg)

- **Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol**
  (strategaeth pobl, cynllunio'r gweithlu, datblygu polisïau)

- **Cynaliadwyedd a Gweithredu ar Newid Hinsawdd**
  (Sero Net Carbon, bioamrywiaeth ac adfer natur, rheoli amgylcheddol)

**Anghenion Cynrychiolaeth**

Er mwyn cryfhau'r amrywiaeth a'r cydbwysedd rhanbarthol ar ein Bwrdd, **rydym yn annog ceisiadau gan y canlynol yn arbennig**:

- **Unigolion sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd neu sydd ag adnabyddiaeth gadarn o Wynedd**
  (i gefnogi cynrychiolaeth ranbarthol). Bydd yr Ymddiriedolwr â'r rôl benodol hon yn cynrychioli ardaloedd Awdurdodau Lleol Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Bydd disgwyl i chi ymuno â'r Panel Cynghori Rhanbarthol ar gyfer yr ardaloedd hynny.

- **Pobl ifanc**, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ar ddechrau eu gyrfa

- Pobl o **gefndiroedd amrywiol**, gan gynnwys y rhai heb ddigon o gynrychiolaeth ym maes llywodraethu treftadaeth
  (amrywiaeth ethnig, pobl anabl, pobl LHDTC+, pobl o gefndiroedd incwm isel, a siaradwyr Cymraeg)

**Rhinweddau Personol**

Dylai ymddiriedolwyr fod:

- Wedi ymrwymo i genhadaeth a gwerthoedd Heneb

- Yn gallu meddwl yn strategol a defnyddio crebwyll cadarn

- Yn barod i herio'n adeiladol a chyfrannu at gonsensws
- Yn foesegol, eangfrydig a chydweithredol
- Yn eiriol yn gryf dros dreftadaeth a budd i'r cyhoedd yng Nghymru

Mae profiad o lywodraethiant yn ddefnyddiol ond **nid yw'n hanfodol** - gellir darparu hyfforddiant a chymorth.

**Ymrwymiad Amser**

- Pedwar i chwe chyfarfod Bwrdd y flwyddyn (wyneb yn wyneb neu ar-lein)
- Cyfarfodydd y Panel Cynghori Rhanbarthol ar gyfer Gwynedd (2-4 cyfarfod y flwyddyn fel arfer)
- Cymryd rhan mewn is-bwyllgorau, digwyddiadau a sesiynau strategaeth o bryd i'w gilydd
- Amser paratoi ar gyfer darllen papurau a chyfrannu arbenigedd

Rôl **wirfoddol, ddi-dâl** yw hon, er y bydd treuliau rhesymol yn cael eu had-dalu.

**Sut i wneud cais**

Gwahoddir ymgeiswyr i gyflwyno **naill ai**:

- **CV a llythyr eglurhaol**, neu
- **Fideo** neu **recordiad sain** (5–8 munud) yn egluro eich diddordeb a'r hyn y byddech yn ei gyflwyno i Heneb.

Anfonwch eich cais erbyn **21 Mai 2026** i HR@Heneb.org.uk